**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

12 Ebrill 2017

Annwyl Carwyn

**Bil Comisiynwyr**

Mewn dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2015-16 ar 15 Tachwedd y llynedd, nodais ein bod wedi bod yn ystyried ymgymryd â rhywfaint o waith ar benodi ac atebolrwydd comisiynwyr.

Ar ôl ystyried y materion hyn ymhellach, rydym wedi penderfynu cyflwyno Bil ar y mater hwn. Yn fras iawn, pwrpas y Bil fydd creu cyrff gwarchod cyfansoddiadol penodol, sy'n gyfrifol am oruchwylio priodoldeb llywodraethol, ac sy'n atebol i'r ddeddfwrfa yn hytrach na'r weithrediaeth.

Nid oes gennym amserlen gadarn eto ar gyfer cyflwyno'r Bil, yn enwedig oherwydd y goblygiadau sylweddol i ni o ran craffu ar ddeddfwriaeth yn deillio o benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, ein bwriad yw ymgynghori ar Fil drafft, yn ôl pob tebyg yn ddiweddarach eleni.

Byddaf yn rhoi gwybod i chi pryd yr ydym yn bwriadu ymgynghori ac yn sicrhau eich bod yn cael y newyddion diweddaraf am ein hamserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r Bil.

Yr wyf yn ysgrifennu llythyrau tebyg at y Llywydd.

Yours sincerely

**Huw Irranca-Davies**
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565